

## Agenda – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Gareth Price  
Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Mehefin Clerc y Pwyllgor  
2017 0300 200 6565  
Amser: 09.15 [SeneddESS@cynulliad.cymru](mailto:SeneddESS@cynulliad.cymru)

**Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**2 Yr Athro Dylan Jones–Evans – Bargeinion Dinesig ac Economiâu  
Rhanbarthol Cymru**

(09.30–10.15)

(Tudalennau 1 – 13)

Yr Athro Dylan Jones–Evans, Dirprwy Is–Ganghellor Cynorthwyol, Prifysgol De  
Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

**3 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol –  
Bargeinion Dinesig ac Economiâu Rhanbarthol Cymru**

(10.15–11.15)

(Tudalennau 14 – 19)

Mark Drakeford AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru  
Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr – Cyllid Strategol Awdurdodau Lleol,  
Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

EIS(5)–15–17 (p1) Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol /

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith



**Egwyl** (11.15–11.30)

#### **4 Panel busnes – Bargeinion Dinesig ac Economiâu Rhanbarthol**

##### **Cymru**

(11.30–12.30)

(Tudalennau 20 – 26)

Paul Byard, Cyfarwyddwr cenedlaethol – Cymru, EEF, sefydliad y  
gweithgynhrychwyr

John Brunt, Uwch Reolwr Rhwydwaith, Grŵp Gweithgynhrychu'r Canolbarth

Dogfennau atodol:

EIS(5)–15–17 (p2) EEF, sefydliad y gweithgynhrychwyr (Saesneg yn unig)

EIS(5)–15–17 (p3) Grŵp Gweithgynhrychu'r Canolbarth (Saesneg yn unig)

#### **5 Papurau i'w nodi**

##### **5.1 Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau**

(Tudalen 27)

Dogfennau atodol:

EIS(5)–15–17 (p4) Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**Ôl-drafodaeth breifat** (12.30–12.45)

## Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## **Diben**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifenyddion y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a Chyllid a Llywodraeth Leol ar ddatblygiadau Bargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i economïau rhanbarthol Cymru.

## **Cefndir**

2. Yn dilyn llofnodi Bargeinion Dinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe mae'r gwaith yn mynd rhagddo i nodi a chyflawni'r camau i wireddu uchelgeisiau'r bargeinion hynny, o dan arweiniad yr awdurdodau lleol mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid rhanbarthol. Mae'r papur hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar ddatblygiadau'r Bargeinion sydd wedi'u llofnodi, yn ogystal ag amlinelliad o'r cynigion ar gyfer Bargeinion Twf mewn mannau eraill o Gymru.

3. Mae'r Bargeinion Dinesig yn cael eu harwain gan uchelgais yr awdurdodau lleol ac maent yn seiliedig ar gydweithio rhanbarthol ymysg rhanddeiliaid, sy'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth er mwyn sbarduno twf economaidd cynaliadwy. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn gyd-lofnodwyr yn y Bargeinion, ond y brif egwyddor yw bod partneriaid lleol yn datblygu ac yn cyflawni cynigion fydd yn creu twf economaidd lleol.

## **Cyfarfod o Fwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

4. Cafodd Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd ei llofnodi gan yr awdurdodau lleol a Llywodraethau Cymru a'r DU ym mis Mawrth 2016. Mae'r Fargen hon yn ceisio rhoi'r adnoddau i bartneriaid lleol sicrhau twf economaidd sylweddol ledled Prifddinas-ranbarth Caerdydd, gan alluogi arweinwyr yr awdurdod lleol i wneud penderfyniadau rhanbarthol, rhannu eu hadnoddau a gweithio'n fwy effeithiol gyda busnesau lleol.

5. Sefydlodd y Fargen Gronfa Fuddsoddi ar gyfer y Rhanbarth o £1.2 biliwn dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae'r Fargen yn ceisio adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth fesul sector, ei sylfaen sgiliau uchel a'r dair brifysgol lwyddiannus. Mae'n rhoi cyfle i barhau i fynd i'r afael â rhwystrau'r ardal i dwf economaidd trwy wella cysylltedd trafndiaeth; gwella lefel sgiliau; cefnogi pobl yn ôl i waith; a rhoi'r cymorth y mae ei angen ar fusnesau i arloesi a datblygu.

## ***Effaith***

6. Yn ystod ei oes, mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn anelu at ddarparu 25,000 o swyddi newydd a sicrhau £4 biliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad o'r sector preifat.

## ***Cyllido***

7. Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd gwerth £1.2 biliwn yn cynnwys cyllid o £734 miliwn ar gyfer Metro De Cymru, gyda £500 miliwn

gan Lywodraeth Cymru, £125 miliwn gan Lywodraeth y DU a £106 miliwn gan yr ERDF. Mae'r Fargen hefyd i dderbyn £495 miliwn yn ychwanegol gan Lywodraeth y DU a £120 miliwn gan awdurdodau lleol) sydd ar gael i'w blaenoriaethu yn unol ag amcanion y Fargen.

### ***Llywodraethu***

8. Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd wedi eu cyhoeddi a'u cytuno gan ddeg o awdurdodau lleol.

9. Mae'r awdurdodau wedi sefydlu Cabinet ar y cyd i ddarparu arweiniad ac atebolrwydd i'r Fargen. Bydd yn cael ei gefnogi ac yn derbyn cyngor gan Bartneriaeth Twf Economaidd a Sefydliad Busnesau Rhanbarthol sy'n sicrhau y bydd y Fargen yn adlewyrchu anghenion y sector preifat a rhanddeiliaid ehangach. Mae Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ei greu hefyd, i sefydlu blaenoriaethau strategol ar draws y rhanbarth.

10. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn llywodraethu'r broses o nodi a dewis ymyraethau, gwneud penderfyniadau, rheoli risg a monitro parhaus, gwerthuso a chofnodi, i sicrhau bod y fargen ddinesig yn darparu'r manteision a fwriadwyd i'r rhanbarth yn llwyddiannus.

### ***Trefniadau Monitro***

11. Mae Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatblygu cynllun gweithredu, monitro a gwerthuso y cytunwyd arno.

12. Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu'n llawn wedi i Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd gwblhau'r Adolygiadau Gateway Pum Mlynedd yn llwyddiannus, fydd yn gwerthuso effaith buddsoddiad y Fargen yn y pum mlynedd hyd at yr Adolygiad. Bydd adolygiad annibynnol o'r manteision economaidd ac effaith economaidd y buddsoddiadau yn sail i'r asesiadau, ac a yw'r prosiectau a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol wedi eu darparu ar amser ac wedi cadw at y gyllideb.

### ***Prosiectau y Fargen Ddinesig***

13. Yn dilyn cadarnhad ffurfiol o Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd gwerth £1.2 biliwn ym mis Mawrth 2017 ac etholiadau llywodraeth leol, mae'r rhanbarth yn y broses o nodi, blaenoriaethu a chytuno ar brosiectau ac ymyraethau i ddarparu uchelgeisiau'r Fargen.

14. Datblygwyd a chytunwyd ar fframwaith sicrwydd ansawdd gan yr awdurdodau lleol, gyda Llywodraethau Cymru a'r DU yn cytuno arnynt, i ddarparu proses dryloyw ar gyfer nodi, blaenoriaethu a chytuno ar brosiectau ac ymyraethau sydd o fudd i'r Ddinas-ranbarth gyfan.

15. Mae'r Rhanbarth wedi cyhoeddi ei fuddsoddiad cyntaf. Rydym yn croesawu'r cynlluniau i fuddsoddi £37 miliwn i greu clwstwr technolegol

blaenllaw byd-eang i'w gefnogi gan y Fargen Ddinesig hon, ac mae disgwyl y bydd yn creu dros 2,000 o swyddi ac yn cael ei gefnogi gan £12 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru.

16. O dan arweiniad Llywodraeth Cymru, mae darparu Metro De-ddwyrain Cymru yn ganolog i'r Fargen, gan gynnwys rhaglen Drydaneiddio Cledrau'r Cymoedd. Mae'r broses gaffael ar gyfer y Metro bellach wedi dechrau a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi ei gytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Chabinet ar y Cyd y Fargen Ddinesig sy'n rhoi amlinelliad o'r swyddogaethau a'r rhyngweithio ar gyfer cynllunio a darparu camau y Metro yn y dyfodol.

### **Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

17. Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, gwerth £1.3 biliwn, yw'r ail fargen yng Nghymru, wedi ei llofnodi ym mis Mawrth 2017. Mae'n cynnig dull o gefnogi twf economaidd ledled De-orllewin Cymru. Mae llofnodi'r fargen hon yn cadarnhau ymrwymiad ar y cyd rhwng y pedwar awdurdod lleol, Llywodraethau Cymru a'r DU, i gydweithio a rhoi'r cynlluniau yn y ddogfen ar waith.

18. Mae Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi ei greu yn wahanol i Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Yn hytrach na sefydlu cronfa seilwaith, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phartneriaid wedi cytuno i ariannu cyfres o brosiectau ar y cyd o fewn themâu lechyd, Ynni, Cyflymu Economaidd a Gweithgynhyrchu Smart. Mae cyfanswm o un-ar-ddeg o brosiectau mawr wedi eu cynnig. Bydd achosion busnes manwl yn cael eu datblygu bellach, a byddant yn destun cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor a Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r partneriaid hefyd yn datblygu'r trefniadau llywodraethu er mwyn cynnig arweinyddiaeth gref ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni'r Fargen yn llwyddiannus.

### ***Effaith***

19. Dros y 15 mlynedd ddiwethaf, mae'r Fargen hon yn anelu at hybu'r economi leol gyda £1.8 biliwn i greu bron i 10,000 o swyddi newydd, gan ddenu £637 miliwn o'r sector preifat.

### ***Cyllido***

20. Bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn seiliedig ar becyn buddsoddi o £1.3 biliwn sy'n cynnwys £125.4 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru, £115.6 o gyllid Llywodraeth y DU, £396 miliwn o arian sectorau cyhoeddus eraill a £637 miliwn o'r sector preifat.

### ***Llywodraethu***

21. Y Cabinet ar y Cyd sy'n bennaf gyfrifol am y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r dull hwn o weithio yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn ganolog i'r Fargen. Mae'r Fargen hon hefyd yn cynnig creu Bwrdd Strategaeth Economaidd fydd yn monitro cynnydd

wrth gyflawni'r Fargen ac yn rhoi cyngor strategol i'r Cyd-bwyllgor ar y Fargen Ddinesig. Bydd y pedwar awdurdod lleol yn cytuno ar y trefniadau llywodraethu ffurfiol a'r model cyflenwi a bydd angen iddynt gael eu cymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

### **Monitro**

22. Bydd Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn gweithio gyda Llywodraethau Cymru a'r DU i ddatblygu cynllun gweithredu, monitro a gwerthuso y cytunwyd arno cyn dechrau ar y fargen, sy'n pennu'r dull arfaethedig o werthuso effaith y cyflenwi.

### **Bargen ar gyfer Twf Gogledd Cymru**

23. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhanbarth Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Gogledd-ddwyrain Cymru i ystyried sut y gall Bargen Twf gefnogi eu huchelgais i sicrhau rhagor o dwf economaidd yn y dull gorau.

24. O ran Bargeinion Dinesig mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych ar ddatganoli pwerau ychwanegol a hyblygrwydd i lywodraeth leol pan fo awgrym cryf y gallai hyn gefnogi twf rhanbarthol.

25. Cyflwynwyd dogfen weledigaeth 'Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru' i Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddechrau Awst 2016 ac mae'n bwynt cychwyn pwysig i ddatblygu Bargen. Cytunwyd ar y weledigaeth hon gan y chwe Awdurdod Lleol unigol a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys cytundeb mewn egwyddor i sefydlu Cyd-bwyllgor i fod yn berchen ar Gais Twf Gogledd Cymru a'i weithredu.

26. Wrth gyfieithu'r weledigaeth hon yn ymyraethau penodol sy'n cael effaith economaidd ar y rhanbarth, rydym wedi ei wneud yn amlwg bod angen i bartneriaid nodi pecyn o fesurau realistig, cymesur i ryddhau cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

27. Croesawyd ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU yng nghyllideb Mawrth 2017 i'r Fargen ar gyfer Twf Gogledd Cymru a rydym yn edrych ymlaen at ystyried rhagor o gynigion gyda Llywodraeth Cymru maes o law.

28. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid rhanbarthol i ddeall y ffordd orau o gefnogi eu huchelgeisiau.

29. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n rhwydwaith ehangach o randdeiliaid a phartneriaid allai helpu i ddapraru llesiant economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y dair Ardal Fenter yng Ngogledd Cymru, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, Growth Track 360, Partneriaeth Menter Lleol Swydd Gaer a Warrington, yn ogystal â phartneriaid a sefydliadau allweddol eraill ledled Gogledd Cymru ac ardal ehangach Pwerdy Gogledd Lloegr.

### **Bargen ar gyfer Twf Gogledd Cymru**

30. Rydym yn parhau yn ymrwymedig i weithio gydag unrhyw ardal yng Nghymru sy'n dymuno edrych ar sut y byddai Bargeinion Dinesig a Thwf o fudd iddynt hwy.

31. Mae Powys a Ceredigion yn parhau i ddatblygu 'Tyfu Canolbarth Cymru' gyda Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a sefydlwyd ar ddechrau 2015 fel partneriaeth ranbarthol oedd yn cynnwys cyrff cynrychioladol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn y canolbarth i arwain dull cydweithredol y rhanbarth o ddatblygu yn economaidd.

32. Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu Fframwaith Gweithredu sy'n pennu blaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflawni twf economaidd a llewyrch ar draws y rhanbarth. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn gweithio'n agos â Phartneriaeth Menter Lleol y Gororau ar feysydd o ddiddordeb cyffredin ac mae wedi trafod materion trawsffiniol gyda cyrff eraill yn ardal y Canolbarth.

33. Rydym hefyd yn disgwyl dwy gyfres o drefniadau penodol a fyddai'n parhau o dan ymbarel ardal pwyllgor cyd-lywodraethu Canolbarth a De-orllewin Cymru.

### **Effaith y Fargen Ddinesig ar Dwf Rhanbarthol**

34. Mae Bargeinion Dinesig yn seiliedig ar gydweithio rhwng partneriaid lleol i ddatblygu cynigion ar gyfer twf economaidd rhanbarthol. Yr hyn sy'n bwysig yw darparu cyfres newydd o gyfleoedd a chyfrifoldebau i bartneriaid lleol a nodi cryfderau economaidd sy'n sail i feithrin twf economaidd. Trwy annog partneriaid i gydweithio, mae'r Llywodraeth yn gofyn i awdurdodau lleol ystyried y ffordd orau o fodloni anghenion y rhanbarth cyfan. Bydd yn bwysig, wrth yrru twf economaidd rhanbarthol, bod partneriaid yn sicrhau bod y manteision i'r rhanbarth gyfan.

35. Wrth gydweithio gyda phartneriaid lleol a Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn sensitif i'r berthynas rhwng y gwahanol Fargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf. Mae'n bwysig bod y Bargeinion yn unigryw ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd. Mae hyn yn arbennig o wir gyda Bae Abertawe a Bargeinion Dinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, sydd drws nesaf i'w gilydd. Yn yr un ffordd, mae angen i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Bargen Twf Gogledd Cymru adlewyrchu anghenion penodol Cymru a natur yr economi drawsbynciol, gan gynnwys y cyfraniad at Bwerdy Gogledd Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn glir bod yn rhaid i'r rhanbarthau hyn gydweithio mewn dull sy'n ategu ei gilydd.

### **Cyfraniad at Strategaeth Llywodraeth Cymru**

36. Trwy annog gweithredu fel dinas-ranbarth ym maes datblygu economaidd yn 2012, dangosodd Llywodraeth Cymru ffordd newydd o weithio gyda ffocws mwy rhanbarthol ar ddatblygu economaidd. Caiff hyn ei gynnwys



wrth sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Dinas-ranbarthau a'i adroddiad sy'n argymhell sefydlu dwy ddinas-ranbarth yn ne Cymru. Mae'r datblygiadau hyn wedi eu hanelu at ddatblygu economïau rhanbarthol trwy rymuso pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth economaidd eu hunain a sectorau arbenigol. Mae darparu sgiliau rhanbarthol yn bolisi allweddol i ganolbwyntio arno wrth ddatblygu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y ganolfan. Mae'r partneriaethau hyn yn rhan annatod o'r Bargeinion Dinesig y cytunwyd arnynt hyd yma.

37. Mae ein mesurau ar gyfer gwella ein seilwaith trafndiaeth ar draws pob rhan o Gymru wedi eu pennu yn y Cynllun Cyllid Trafndiaeth Cenedlaethol. Mae'r Dinas-ranbarthau wedi dylanwadu ar y broses hon o gynllunio trafndiaeth ar lefel leol a chenedlaethol. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle iddynt nodi'r prif welliannau y maent yn gredu sy'n bwysig i'w rhanbarthau.

38. Wrth fynd ymlaen, rydym wedi dangos symudiad at ddull mwy rhanbarthol o weithio gan mai un o'r prif heriau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd yw sut yr ydym i ail-ffocysu a mireinio ein dull o weithio mewn ffordd a fyddai yn helpu inni sicrhau twf cytbwys ar draws pob rhan o Gymru. Trwy'r Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol a Chadernid ac Adnewyddiad, a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2017, amlinellwyd ein cynigion i greu cadernid a chefnogi'r adnewyddiad yn y llywodraeth leol, gan adeiladu ar drafodaethau eang gyda llywodraeth leol.

39. Yr hyn sy'n flaenllaw gennym yw dull systematig a gorfodol o weithio rhanbarthol, fel y mae ar lefel ranbarthol ac wrth ddatblygu hunaniaethau unigryw gyda mwy o ffocws ar yr economïau hynny y gallwn sbarduno twf cytbwys a chynaliadwy, trwy helpu pob rhanbarth ddatblygu eu sectorau blaenoriaeth eu hunain a sectorau arbenigol.

40. Mae datblygu Bargeinion Dinesig wedi dangos effaith a phosibiliadau gweithio mewn partneriaeth. Mae Bargeinion Dinesig yn rhoi fframwaith, y tu hwnt i fuddsoddiad y Fargen Ddinesig, sy'n caniatáu i ranbarthau gydweithio i osod blaenoriaethau economaidd a chyflawni swyddogaethau fel rhanbarth, gan gynnwys cynllunio tir, trafndiaeth a datblygiad economaidd.

41. Mae Dinas-ranbarthau yng Nghymru wedi rhoi cyfle i awdurdodau lleol fynd ymlaen i wneud gwahaniaeth parhaus i'r ffordd y maent yn cydweithio er budd y rhanbarth ehangach y maent yn ei chynrychioli. Mae hyn yn cyd-fynd â dull y Llywodraeth o ddiwygio llywodraeth leol.

**Mark Drakeford AC**  
**Ysgrifennydd y Cabinet**  
**dros Gyllid a Llywodraeth Leol.**

**Ken Skates AC**  
**Ysgrifennydd y Cabinet**  
**dros yr Economi a'r Seilwaith.**

## **Through the lens of an Industrial Strategy.**

### **1. The current position with regard to the signed Cardiff Capital Region and Swansea Bay City Deals and the next steps planned to take them forward**

The Cardiff Capital Region and the Swansea Bay City Deal have the opportunity to transform the region and aid economic performance. For example re quote :-

“The signing of the Cardiff Capital Region City Deal signalled an intention by the UK Government, Welsh Government, and the ten Local Authorities to increasingly work together on issues of long term development, infrastructure, land use, economic development and employment. This important agreement provides a fresh start for the city-region and offers the possibility of an integrated, singular, and long term approach to the region.

We believe the long-term strategy for the region will include at least:

- Investment in education to improve employability and productivity.
- Fostering of employment growth across distinct skills and income spectrums.
- Infrastructure investment to integrate the region better and provide more opportunities.
- Development in the spatial economy that will see multiple locations of growth.
- Improvements in the quality of place and the range of institutions investing in improving the city and town centres.
- Fostering of emerging sectors of employment and new/young companies.
- Increasing governance integration in the city-region to combine efforts and leverage investment.”

## **Regional Economic Strategy**

The Regional Cabinet has highlighted its intention to support skills and tackling unemployment, investing in innovation and connectivity and supporting enterprise and business growth, regeneration and housing.

In developing the Regional Economic Strategy, further work is being undertaken on the potential outputs and outcomes expected from the City Deal, which will develop on the expectations currently expressed of delivery of up to 25,000 new jobs and leverage an additional £4 billion of private sector investment.

## **Advisory/Consultative Bodies**

The Regional Cabinet are currently establishing three advisory/consultative bodies to assist them in developing, articulating and delivering the Regional Economic Strategy:

- Business Organisation – to provide a strong business voice articulating the regional needs of business, identifying regional priorities for business support;
- Regional Skills and Employment Board – building on the current Employment and Skills Board and representing a wide range of stakeholders it will be responsible for the region’s skills and worklessness strategy; and
- Economic Growth Partnership – to advise on the overarching city-region economic development strategy.

## **EEF – Through the lens of an Industrial Strategy**

The programme of City Deals and Regional Economic Strategies are attempting to resolve the many systemic issues/concerns we have in Wales.

The economic challenges facing Wales are of such an order that there has to be collective response that stimulates the Welsh economy, improves the competitiveness of Welsh business and delivers sustainable jobs.

The Welsh Government needs to ensure that the resources it has at its disposal are used in the most effective way. In order to ‘...foster the conditions needed to allow businesses to thrive.....’ and ‘..... reduce burdens on business and stimulate innovation and growth....’, as stated in the Programme for Government, the Welsh Government needs to seek and act on the advice of business /academia / key stakeholders within an agreed strategic framework.

To achieve this for the long term we must understand and agree what are the systemic issues and the vision / common purpose to deliver a future state economy.

### **Systemic issues in Wales:-**

Investments - Infrastructure / Inward Investments / indigenous Growth  
Investment - Research and Development - Commercial Innovations  
Investment in the Medium - Long Term to enhance our social capital - Improve Education Standards  
Reduce - Unemployment / Youth unemployment - social justice to create sustainability.  
A clear devolution structure/powers fit for purpose.  
Improve public services / Procurement  
Skills - More productive and Flexible workforce

### **Other Government Initiatives**

#### **1. Taking Wales Forward – (4)**

The development of the Welsh Government’s wider strategic work on four cross-cutting strategies:

- a. Prosperous and Secure
- b. Ambitious and Learning
- c. United and Connected
- d. Healthy and Active

#### **2. Well Being Future Generations Act 2015.**

- a. A Prosperous Wales
- b. A Resilient Wales
- c. A Healthier Wales
- d. A more Equal Wales
- e. A Wales of cohesive communities.
- f. A Wales of vibrant culture and thriving Welsh Language
- g. A globally responsible Wales

EEF Route to Growth

### **Rebalancing the Economy.**

Wales has a unique opportunity to rebalance the economy on a secure manufacturing base.

Many of the systemic issues we have in Wales are well understood but we lack the connectivity to provide a sustainable solution. A key component to addressing these concerns is through an industrial strategy which forms part of the wider economic strategy.

### **Methodology/Approach.**

The basis for the identification of the challenges facing manufacturing and the defining of a balanced economy to achieve over an agreed period of time will highlight/demonstrate the absolute connectivity between government/industry/academia and key stakeholders. This focus will hold to account the delivery of key investments/initiatives towards future state and monitor effectiveness in terms of maximizing economic benefit to Wales. In an attempt to predict future changes and challenges, a number of initiatives can be undertaken which will make clear the Vision for future state manufacturing capability in Wales.

### **Outline approach:-**

Align the Industrial Vision for Wales.

- Understand current state:- establish a baseline.
- Agree Future State:- Define:- “Building a balanced economy on a secure manufacturing base”.
- Timing Plan:- to be defined in 5/10/15 years.
- Conduct Gap Analysis:- Invite/setup an all stakeholder conference to lead and shared vision for Wales.
- Prioritisation of Initiatives/projects aligned with above.
- Agree measuring instruments for maximizing economic impact.

The above forms the basis of building on our capabilities and releasing the potential to invest accordingly.

### **Manufacturing in Wales**

The shift in manufacturing focus and corresponding capability has honed the Welsh manufacturing workforce into a highly adaptive and responsive asset capable of learning, adapting and overcoming major strategic shifts in manufacturing. This is a key strength in our evolution towards a diverse sustainable manufacturing capability. As a result of this continually changing manufacturing landscape, significant strategic shifts and technological advancements will continue as manufacturing industry adjusts to the opportunities and threats that it faces today and in the future. The emergence of new manufacturing technologies, spurred by intense global competition, will lead to new products and processes. The identification and prioritization of these opportunities will provide Wales with New Industries.

### **Vision :-**

A consistent long-term industrial strategy can help us make more of what we have and develop the growth drivers of the future. We must strive for better productivity, increased trade and more ambitious investment in new technologies. Government can underpin this by supporting Skills and higher skills, investing in infrastructure, lowering the cost of doing business and providing world class support for growing businesses.

Therefore EEF The Manufacturing Organisation is focused on :-

**Our key Route to Growth is via 4 key ambitions as stated by our members.**

<b>Ambition 1.</b> More companies bring new products and services to market	Innovation
<b>Ambition 2.</b> More globally focused companies choosing to expand in the UK	Commercialisation
<b>Ambition 3.</b> A lower cost of doing business	Competitiveness
<b>Ambition 4.</b> A more productive and flexible labour force.	Future Skills

By supporting these ambitions it is evident that the synergy through an overarching Industrial Strategy provides the connectivity to deliver and create sustainable employment.

Key considerations to align “**Systemic** issues with **Policy** and ensure **Connectivity**”.

The Economic Strategy should have 3 main elements :-

- The Economic Strategy must provide a clear vision for the kind of economy the Welsh Government is trying to create.
- A cross – government approach to work relentlessly to deliver the vision.
- Measurable benchmarks to track progress and a framework to ensure action is taken if we go off track.

**Industrial Strategy alignment**

In summary the UK Industrial Strategy is focused on 10 pillars of support namely:-

1. Investing in science, research and innovation
2. Developing skills
3. Upgrading infrastructure
4. Supporting businesses to start and grow
5. Improving procurement
6. Encouraging trade and inward investment policy
7. Delivering affordable energy and clean growth
8. Cultivating world-leading sectors
9. Driving growth across the whole country
10. Creating the right institutions to bring together sectors and places

Therefore we must consider the alignment of the key elements to provide sustainable growth with an Industrial Strategy. This will provide an opportunity to consider the powers and resources available in Wales and align to a future state aspiration and then conduct the gap analysis in provision to address both the shortfall and the root cause of the many systemic issues we have in Wales.

<b>Route to Growth</b>	<b>Industrial Strategy</b>
Ambition 1 – Innovation Helping companies bring new products and services to market	<b>1. Investing in science, research and innovation.</b> <b>7. Delivering affordable energy and clean growth</b>
Ambition 2 – Commercialisation More globally-focused companies choosing to expand in the UK	<b>4. Supporting businesses to start and grow</b> <b>6. Encouraging trade and inward investment policy</b>
Ambition 3 – A lower cost of doing business	<b>Gap analysis.</b>
Ambition 4 – A more productive and more flexible labour force	<b>2. Developing skills</b> <b>8. Cultivating world-leading sectors</b>

Consideration via other Government Initiatives:-

**3.Upgrading infrastructure**

**5.Improving procurement**

**9.Driving growth across the whole country**

**10.Creating the right institutions to bring together sectors and places**

### Gap analysis.

The above Route to Growth identifies a gap in provision re Lower Cost of Doing Business. This can provide an opportunity to look at Efficiency, Productivity, Value Engineering, Design for Manufacture, Industrial Engineering, Lean Benchmark etc. The Productivity Fund via Innovate UK provides a key support mechanism to engage to address our competitiveness whilst we go through this period of uncertainty.

### **Summary:-**

An Industrial Strategy can provide the “glue” and the basis for forming long term decisions that will create a sustainable Economic Impact whilst addressing the many systemic issues in Wales by addressing and investing in the root cause of so many problems.

### **Building for the future – Industrial Strategy**

Any strategy for the sector/region requires a process which not only clearly sets out a direction of travel but, more importantly, continuously reviews the steps required and resources needed to maximise economic impact from the sector in response to changes in the global marketplace. The aim therefore is to create a real time high-level Strategic Route Map for the sector supported by a series of detailed Tactical Implementation Plans which reflects the dynamic approach to strategy development espoused by the Manufacturing Sector. A Strategic Route Map will target five key priorities that deliver maximum impact for the sector by collectively providing Wales with a distinct competitive edge:

1. **Globalisation** – increasing trade, export and inward investment opportunities from existing and emerging markets
2. **Innovation** – encouraging and supporting R&D in innovative products and processes to increase and embed ‘intellectual capital’ in Wales
3. **Employment** – ‘future proofing’ education, skills, training and leadership to meet the demands of the 21<sup>st</sup> century manufacturing workplace
4. **Finance for Growth** – syndicating risk-sharing financial packages through a combination of public and private sector funding mechanisms
5. **Capacity Building** - targeting “investment” in indigenous, inward and strategic infrastructure and broad-access business improvement initiatives.

Without this alignment the key concern is we miss the opportunity to create building capacity and capability by localising and developing sectors / supply chains.

**National Assembly for Wales' Economy, Infrastructure and Skills Committee  
Inquiry into City Deals and the Regional Economies of Wales.**

**Grow Mid Wales**

Mid Wales Manufacturing Group (MWMG ) have been involved with the partnership since its inaugural meeting. We are delighted to be able to participate in what we hope could develop into a vital initiative representing the specific and possibly unique interests of our region in the overall Welsh economy and provide the means for transformational change to the region.

- Partnership Structure  
Full engagement by the private sector has been challenging, due in part by the size of companies that operate in the region but also through a lack of change after countless regional and County strategies have failed to deliver. The structure is very public sector heavy, however this is noted by the Partnership who are seeking other ways to engage. We would welcome a Partnership Director who is employed outside of the Council structure to deliver on the Framework agreements.
- Economic Development Priorities

Transformational change doesn't come easily or without cost, however considering the failure by all parties to provide even mobile phone coverage for the region even 30 years later, we need to somehow find a way to get the needs of businesses in the region addressed. The opportunity to be able to develop and bid for a programme of change without the EU regulations hindrance is welcomed and allows us to focus on the needs of all of Mid Wales rather than West Wales & the Valleys or East Wales and aligning ourselves to particular funding pockets.

- Cross Border Working

East-West connectivity is vitally important to the region and it was encouraging to see the work with the Marches on the cross border freight survey. Opportunities are evident for supply chain development if we can capitalise on them.

- Industrial Property

The availability of suitable industrial premises in the region is a major barrier to growth of businesses and despite inward investment enquiries we are unable to attract new business as the property and land is unavailable, Planning regulations are stifling, and BREEAM regulations a large expense. Addressing this issue is a major priority and can be addressed through the partnership by ensuring appropriate sites are available and addressing market failure.

- Skills & Training

The latest MWMG member survey (May 17) shows 62% of our members have cited skills shortage as affecting Business Growth, we must develop initiatives around retention of young people in the region, recruitment into the region and upskilling the exiting workforce to ensure the future prosperity of our businesses.

- Infrastructure

Improving transport flow into the region will assist with recruitment difficulties. Widening trunk roads, providing overtaking spaces can all assist. We must do more to connect Wales and to connect Mid Wales into the Midlands corridor. Many companies are still unable to maximise the benefits of Digital Technology due to poor broadband speeds.

Mid Wales Manufacturing Group  
6/6/2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**  
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Mike Hedges AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd, CF99 1NA

12 Mehefin 2017


Annwyl Mike,

## **Deisebau sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai ynghylch deisebau sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd. Nododd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y llythyr yn ein cyfarfod ar 7 Mehefin 2017.

Pan fyddwn yn edrych ar ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn ddiweddarach y tymor hwn, byddwn yn ystyried a oes themâu yn deillio o'r deisebau a allai lywio ymchwiliad yn y dyfodol.

Yn gywir,



Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

